Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Gylch Meithrin Talybont**
**Ysgol Gynradd Talybont**
**Talybont**
**Ceredigion**
**SY24 5HE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a’i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae’r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae’r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy’n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau’n gorbwyso’r meysydd i’w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae’r meysydd pwysig i’w gwella yn gorbwyso’r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru


**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 13/05/2016**

## Cyd-destun

Meithrinfa cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Talybont sy’n rhan o ddarpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin a phartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Ceredigion.

Sefydlwyd y lleoliad dros 40 mlynedd yn ôl ac mae wedi’i leoli ar dir yr ysgol gynradd ers dros bymtheg mlynedd bellach. Mae’r plant sy’n mynychu’r lleoliad yn dod o’r pentref a’r ardal wledig gyfagos.

Mae’r lleoliad yn darparu ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae 14 o blant ar y gofrestr, gyda 12 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi’i hariannu.

Mae’r cylch ar agor pedwar bore’r wythnos rhwng 9.00 a 12.00 o’r gloch ac maent yn cynnig cinio yn yr ysgol i’r plant sy’n dymuno hynny hyd at 12.30 o’r gloch.

Mae tri aelod o staff. Penodwyd yr arweinyddion i’w swyddi presennol yn nhymor yr hydref 2015. Maent yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach.

Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, bydd y plant yn trosglwyddo i’r ysgolion cynradd lleol lle maent yn parhau i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mai 2015 a chan Estyn ym Mawrth 2013.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau
- bron bob plentyn yn dangos agweddau da tuag at ddysgu
- y rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda, a'u bod yn gwrtais ac yn ystyriol o eraill
- perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant
- ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol i'r plant
- y gymuned yn un hapus a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch y plant

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn ymroddedig i ddarparu profiadau dysgu ysgogol a sicrhau safonau da
- arweinwyr yn llwyddo i greu awyrgylch hapus a phwrpasol ar gyfer dysgu
- ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm
- y lleoliad yn defnyddio ystod o bartneriaethau yn llwyddiannus i wella deilliannau ar gyfer y plant
- y pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol
- y lleoliad yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau meddwl a medrau datrys problemau'r plant mwyaf galluog

A2 Sicrhau bod deilliannau'r broses asesu yn bwydo'r cynllunio yn well

A3 Ffurfioli cofnodion cyfarfodydd yr arweinwyr a sicrhau eu bod yn nodi cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Maent yn cyflawni'n dda yn unol â'u hoed a'u gallu, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio'n briodol mewn sesiynau dysgu. Mae llawer yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn arddangos medrau meddwl da, er enghraifft wrth feddwl sut i gael yr holl anifeiliaid fferm ar yr ôl-gerbyd pan nad oedd lle iddynt i gyd. Mae'r rhan fwyaf yn gallu gweithio'n annibynnol a gwneud dewisiadau yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau a storiau ac yn ymateb yn briodol, fel, er enghraifft, yn stori Alun yr arth a'r gêm fawr. Mae llawer yn ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg yn hyderus ac mae hyn yn cyfoethogi eu geirfa a'u dealltwriaeth. Nodwedd dda a nodedig yw'r ffordd y mae llawer o blant yn sgwrsio'n naturiol yn y Gymraeg yn ystod eu sesiynau chwarae.

Mae rhan fwyaf y plant yn dangos diddordeb da mewn llyfrau. Maent yn trin llyfrau yn ofalus, yn siarad yn hyderus amdanynt yn eu mamiaith ac yn gwneud synnwyr o luniau, er enghraifft trafod cymeriadau yn stori Hwpla'r gwningen. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn adnabod eu henwau mewn print. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol ac yn hyderus drwy wneud marciau ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddiben ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif hyd at 10 yn hyderus, gyda'r goreuon yn cyfrif ymhellach hyd at 15. Enghreifftiau da yw'r ffordd y maent yn cyfrif faint o blant sy'n bresennol adeg cofrestru neu ddarllen llyfr yn ymwneud â rhif. Mae rhan fwyaf o'r plant yn cymryd rhan yn frwdfrydig drwy ganu caneuon sy'n ymwneud â rhif. Mae llawer yn adnabod ac yn enwi siapiau dau ddimensiwn sylfaenol yn gywir, gan gynnwys cylchoedd, trionglau a sgwariau.

Mae rhan fwyaf y plant yn gyfarwydd â theganau digidol a chamerâu gyda batris ac yn trin cyfrifiaduron llaw yn fedrus. Mae medrau corfforol llawer o blant yn datblygu'n dda. Mae medrau ymarferol y plant, ynghyd â'u gallu i dorri a gludo wedi datblygu'n llwyddiannus, fel torri siâp wy Pasg gyda siswrn. Er bod medrau meddwl a datrys problemau llawer o'r plant wedi eu datblygu'n effeithiol, nid yw hyn yn wir mewn perthynas â'r plant mwyaf galluog.

Mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth dda o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, er enghraifft. Mae'r plant yn gwisgo'n briodol, gwneud cawl a chymryd rhan mewn eisteddfod.

**Lles: Da**

Ar y cyfan, mae'r plant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer. Mae rhan fwyaf y plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dewis gweithgareddau yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau i orffen tasg yn llwyddiannus. Maent yn dangos cymhelliant ac yn cymryd rhan lawn yn eu dysgu, yn enwedig mewn gweithgareddau ffocws dan arweiniad oedolion fel y gweithgareddau jabadao.

Mae bron bob plentyn yn dangos agweddau da tuag at ddysgu. Mae gan y rhan fwyaf o'r plant yr hyder i weithio'n annibynnol. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau gan oedolion.

Mae rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda, maent yn gwrtais ac yn ystyriol o eraill. Mae medrau cymdeithasol y plant yn datblygu'n briodol wrth iddynt gyd-chwarae a chyd-fwyta. Maent yn dangos goddefgarwch a pharodrwydd i rannu fel, er enghraifft, wrth chwarae yn y guddfan adar y tu allan ac wrth rannu gwrthrychau fel ysbienddrychau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad gynlluniau effeithiol ar gyfer darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd yn effeithiol bob pythefnos. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn medru addasu'r cynlluniau yn briodol i ystyried unrhyw newidiadau neu ddigwyddiadau lleol. Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn rhoi sylw buddiol i bob maes dysgu ac yn bodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn nodi gweithgareddau ffocws ac eraill sy'n cael eu cyfoethogi yn glir.

Trefnir gweithgareddau amrywiol y tu mewn a thu allan sy'n ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus. Cynigir cyfleoedd i blant feithrin eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gyson, ac mae hyn yn arwain at safonau da yn y meysydd hyn.

Er mwyn datblygu medrau llythrennedd y plant, yn enwedig yr iaith Gymraeg, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol ac effeithiol iddynt ganu ystod o ganeuon a rhigymau ac i ymestyn eu diddordeb mewn llyfrau. Cânt gyfleoedd cyson ac effeithiol i adnabod eu henwau trwy hunangofrestru.

Mae'r gweithgareddau ar gyfer datblygu medrau rhifedd y plant yn effeithiol. Maent yn cynnwys, er enghraifft, cyfleoedd gwerth chweil iddynt ddidoli a chyfateb gwrthrychau a defnyddio geirfa fathemategol gan gynnwys mawr, bach, llawn a gwag wrth chwarae yn yr ardal tywod allanol. Cânt gyfleoedd rheolaidd i gyfrif sawl plentyn sy'n bresennol adeg y sesiwn gofrestru.

Caiff y plant gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio offer digidol, gan gynnwys cyfrifiaduron llaw, camerâu ac offer gwrando.

Cynllunnir gweithgareddau defnyddiol a rheolaidd i ddatblygu medrau creadigol y plant a'u medrau trin cyfarpar bach yn ddyddiol.

Darperir cyfleoedd da a chyson i blant ddewis gweithgareddau penodol y maent am eu cyflawni yn yr ardal allanol neu y tu mewn. Mae hyn yn datblygu eu gallu i wneud dewisiadau drostynt eu hunain a chychwyn gweithio'n annibynnol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ymwelwyr ymweld â’r lleoliad yn gyson i siarad â’r plant am eu profiadau. Maent hefyd yn trefnu ymweliadau i’r plant â mannau diddorol Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddysgu am eu hardal leol a'r byd y maen nhw'n byw ynddo.

Cynllunnir cyfleoedd da i'r plant ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth y cyntaf. Fel rhan o’r gwaith hyn, maent yn dysgu am ddillad a bwydydd traddodiadol Cymreig. Mae’r ddarpariaeth i ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth y plant o ddiwylliannau eraill yn cael ei datblygu’n dda trwy ddathlu, er enghraifft, y flwyddyn newydd Tsieineaidd.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a’r plant. Mae hyn yn eu galluogi i ymgartrefu'n gyflym wrth ddechrau yn y lleoliad ac i deimlo'n ddiogel yno. Mae ystod ac ansawdd y dulliau addysgu'n effeithiol. Gwneir defnydd cyson ac effeithiol o gwestiynau pwrpasol er mwyn ennyn chwilfrydedd naturiol y plant. Mae'r ymarferwyr yn arwain y dysgu a rheoli grwpiau yn effeithiol gan sicrhau bod y plant yn glir am yr hyn a ddisgwylir oddi wrthynt. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn dyfalbarhau ac yn aros ar dasg am gyfnodau penodol yn llwyddiannus.

Ceir cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn ac eraill a gânt eu harwain gan oedolyn. Mae llif y sesiynau yn symud yn briodol ac mae ymarferwyr yn cynnig cymhelliant effeithiol i'r plant. Rheolir ymddygiad y plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth yn llwyddiannus trwy roi adborth llafar a thrwy ddefnyddio sticeri i wobrwyo ymdrech dda.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac, o ganlyniad, maent yn sensitif i'w anghenion. Mae trefniadau buddiol yn eu lle i asesu plant wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad ac i gofnodi eu cynnydd yn y chwe maes dysgu yn gymharol gyson. Mae'r ymarferwyr yn cyd-drafod a rhannu gwybodaeth am gynnydd plant yn rheolaidd ar ddiwedd bob wythnos. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn ychydig yn anffurfiol, ac nid ydynt hyd yma yn cael eu defnyddio’n ddigon rheolaidd i ddylanwadu ar y cynllunio er mwyn symud y dysgu ymlaen yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn cadw rhieni'n hysbys am gynnydd eu plant yn effeithiol drwy drafodaethau anffurfiol, cyfarfodydd ffurfiol a thrwy gyflwyno ffurflenni trosglwyddo iddynt ar ddiwedd cyfnod y plant yno.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch y plant. Mae yna awyrgylch cynnes a chroesawgar lle mae'r staff yn creu amgylchedd cartrefol ar gyfer y plant. Mae gweithdrefnau buddiol yn eu lle i annog y plant i fwyta ac yfed yn iach ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, er enghraifft trwy gydbwyso ar gratiau a phrennau yn yr ardal allanol.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, chymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae profiadau fel dathliadau’r flwyddyn newydd Tsieineaidd yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ysbrydol y plant. Darperir

amrywiaeth fuddiol o brofiadau dysgu sy'n meithrin gwerthoedd y plant, fel gonestrwydd, tegwch a pharch ac fe hyrwyddir egwyddorion sy'n helpu'r plant wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac anghywir yn rheolaidd. Mae rheolau ymddygiad syml yn bodoli mewn ambell ardal, fel y cornel jabadao wedi cael eu sefydlu a'u derbyn yn dda, gan arwain at amgylchedd dysgu cytûn. Mae'r plant yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldebau, fel helpu i glirio a thacluso'r ystafell ar ddiwedd sesiynau. Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng y plant a'i gilydd yn dda ac maent yn dysgu i rannu a chymryd eu tro yn briodol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn briodol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson i ailgylchu bwydydd a phapur gwastraff ar wahân.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu plant. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol. O ganlyniad, mae trefniadau lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau addas ar waith i gefnogi'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r lleoliad yn defnyddio cefnogaeth ychwanegol gan asiantaethau cefnogi yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynnes a chynhwysol lle mae'r berthynas waith yn dda ac yn sicrhau bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau diddorol ac ysgogol i'r plant, sy'n dal eu sylw yn llwyddiannus.

Mae'r ystafell ddysgu wedi'i chynllunio'n dda ar gyfer yr amryw ardaloedd ddysgu priodol. Mae amrywiaeth dda o arddangosfeydd deniadol a ffotograffau sy'n dathlu ymdrechion a chyflawniadau'r plant yn dda. Mae'r adnoddau yn niferus, o ansawdd da ac yn benodol ar gyfer oedran y plant. Mae'r meysydd dysgu wedi eu diffinio'n glir ac yn darparu ardaloedd dysgu diddorol ac effeithiol i ddatblygu'r dysgu yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth awyr agored wedi ei datblygu'n effeithiol i gynnwys nifer o ardaloedd dysgu cyffrous fel y guddfan adar, ardal tywod o dan do a chegin fwd.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drysau yn cael eu cadw ar glo a does neb yn gallu dod i mewn neu adael yn ddirybudd.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinwyr newydd yn cydweithio'n effeithiol ac maent yn ymroddedig i ddarparu profiadau dysgu ysgogol a sicrhau safonau da. Maent wedi llwyddo i rannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r holl ymarferwyr fel bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u dyletswyddau dyddiol. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo egwyddorion o gydweithio fel tîm yn effeithiol. Mae hyn yn datblygu ethos gofalgar a chroesawgar iawn lle mae pawb yn hapus. Trwy drafodaethau anffurfiol, mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn adnabod anghenion plant unigol yn dda

ac yn darparu ystod dda o brofiadau cyfoethog iddynt. Fodd bynnag, mae cofnodion cyfarfodydd yr arweinwyr yn rhy anffurfiol ac mae gweithdrefnau monitro'r cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun datblygu ond wedi cychwyn yn gymharol ddiweddar ac mae angen ffurfioli'r rhain ymhellach.

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r ffaith bod y pwyllgor rheoli yn sefydlog ac yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau'r pentref. Mae'r lleoliad yn elwa'n fawr o'r ffaith bod arweinwyr o ysgolion cyfagos yn aelodau o'r pwyllgor ac yn rhoi cefnogaeth broffesiynol ac ymarferol. Mae'r pwyllgor yn ariannu oriau ychwanegol i alluogi'r arweinydd i gynllunio, ysgrifennu adroddiadau a pharatoi. Mae cyfarfodydd y pwyllgor yn sicrhau bod materion strategol hir dymor yn cael eu trafod yn ogystal â threfniadau gweithgareddau o ddydd i ddydd fel gweithgareddau codi arian. Maent wedi sicrhau bod trefniadau yn eu lle i sicrhau bod pob rhiant yn ymwybodol o gyfundrefnau canmol a chwyno'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn talu sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel byw'n iach, ac yn sicrhau bod ffocws clir ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinwyr yn adeiladu'n fwriadus ar y diwylliant o hunanarfarnu sy'n bodoli yn y lleoliad. Maent yn trafod yn gyson efo'r ymarferwyr sut i wella'r ddarpariaeth ac yn sgwrsio gyda'r plant am eu hoff a'u cas bethau. Mae rhieni hefyd yn cael cyfle i fynegi barn drwy holiaduron ac mae cyfle iddynt rannu eu syniadau yn y blwch pwrpasol. Defnyddir arfarniadau allanol yn bwrpasol er mwyn ffocysu ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r broses hunanarfarnu'n llwyddiannus ac mae'r adroddiad yn dangos bod yr arweinwyr newydd yn adnabod y cylch yn dda. Ar ddiwedd pob adran, mae'r arweinwyr yn nodi'r hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach. Maent yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r cynllun datblygu gan sicrhau bod y berthynas rhwng y ddwy ddogfen yn gadarn. Ceir tystiolaeth bod y cynlluniau gwella eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yn arbennig o ran datblygu'r ardal tu allan a TGCh.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu partneriaethau effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth.

Mae'r partneriaethau â rhieni yn gadarn. Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth bwrpasol i rieni am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu trwy gysylltiad anffurfiol dyddiol, ebyst, tudalen ar wefan gymdeithasol a chylchlythyron sy'n amlinellu themâu'r lleoliad. Mae gweithdrefnau da i gyflwyno plant newydd i'r lleoliad ac, o ganlyniad, maent yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym. Mae rhieni a'r gymdeithas leol yn cefnogi'r lleoliad yn gyson trwy weithgareddau codi arian a chyngherddau. Trwy hyn, mae'r lleoliad yn sicrhau adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant, fel cyfarpar yr ardal allanol.

Mae'r bartneriaeth sy'n bodoli gyda'r ysgol leol lle mae'r lleoliad yn rhannu adeilad, yn gryfder amlwg ac, o ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau'r ysgol cyn cychwyn yno. Mae'r bartneriaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar

safonau a lles y plant, yn galluogi'r lleoliad i gael defnydd o ystod eang o adnoddau ac yn cyfoethogi dealltwriaeth broffesiynol yr ymarferwyr. Yn yr un modd, mae'r bartneriaeth agos iawn sy'n bodoli gyda'r Cylch Ti a Fi yn gymorth i'r plant hynny deimlo'n ddiogel wrth drosglwyddo i'r cylch meithrin.

Mae partneriaeth adeiladol ag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu a swyddog Cymraeg Mudiad Meithrin yn cynorthwyo â gwelliant parhaus yn y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o staff ac adnoddau i gefnogi'r addysgu a'r dysgu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o staff â chymwysterau addas gan y lleoliad i weithio gyda phlant ifainc. Mae ymarferwyr yn manteisio ar ystod addas o hyfforddiant defnyddiol i adeiladu ar eu medrau a'u helpu i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu plant. Maent yn defnyddio ymarferwyr yn effeithiol gan wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd. Cyfranna hyn yn llwyddiannus at godi safonau a sicrhau lles y plant. Mae'r lleoliad yn rhannu adnoddau'n fwriadus gyda'r ysgol leol. Enghraifft dda o hyn yw rhannu cyfrifiaduron, offer mawr, offerynnau a blociau.

Mae'r arweinwyr yn cynhyrchu mantolen ariannol yn flynyddol sy'n cael ei gwirio'n allanol ac yn dwyn y wybodaeth ynghyd mewn adroddiad blynyddol i'r Mudiad Meithrin. Maent yn dyrannu cyllid yn briodol i ymateb i flaenoriaethau'r lleoliad ac yn defnyddio arian yn effeithlon i sicrhau bod y grŵp yn parhau'n gynaliadwy.

O ystyried y deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan blant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 15 | 14<br>93% | 1<br>7% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 15 | 11<br>73% | 4<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 15 | 11<br>73% | 4<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 13<br>87% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 9<br>69% | 4<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 15 | 13<br>87% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 13 | 10<br>77% | 3<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 7<br>47% | 8<br>53% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 31% | 6% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 14 | 6<br>43% | 8<br>57% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 15 | 10<br>67% | 5<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 14 | 10<br>71% | 4<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 15 | 13<br>87% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Elonwy Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |